

# CYNGOR WRTH GAEL EICH ARESTIO

Atebwch gyda “**DIM SYLW**” / “**NO COMMENT**” i bob cwestiwn a ofynnir gan yr heddlu yn ystod sgysiau anffurfiol, pan maen nhw'n mynd â chi i'r orsaf heddlu, neu yn ystod cyfweiliad. Yn yr orsaf heddlu gallwch ddewis rhoi eich enw, cyfeiriad a dyddiad geni i'r heddlu er mwyn cyflymu eich rhyddhad. **Er mwyn gofalu am eich diogelwch chi a phobl eraill, peidiwch ag ateb unrhyw gwestiynau pellach.**

Peidiwch a derbyn **RHYBUDD** heb gyngor cyfreithiwr. Mae rhybudd ffurfiol yn arwydd eich bod chi'n cyfaddef eich bod chi'n euog, ac yn cael ei nodi ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu.

Mae hawl **CYNGOR CYFREITHIOL AM DDIM** gyda chi yn yr orsaf heddlu. Fel arfer, dyw'r cyfreithwyr ar ddyletswydd dim yn brofiadol gyda deddfau protest, felly rydyn ni'n eich cynghori i ofyn i'r heddlu gysylltu â:

**Hodge Jones & Allen (HJA): 0808 274 8226 - oes ydyn nhw wedi cael eu rhybyddio o flaen llaw, mae'r cwmni hwn yn gweithio yng Nghymru.**

Mae hawl rhoi gwybod i rywun eich bod wedi cael eich arestio gyda chi (galwch y **Protest Support Line** os nad oes gyda chi gynllun yn barod: **07946 541 511**).

Mae hawl cyfieithwr gyda chi, os nad ydych chi'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

Os ydych chi'n iau nag 18 mlwydd oed, neu os ydych chi'n edrych yn iau nag 18, maen rhaid i'r heddlu gysylltu ag oedolyn addas.

# Oes CWESTIYNAU CYFREITHIOL gyda chi am BROTESTIO?

**STOPIO A CHWILIO:** Does dim pŵer stopio a chwilio sy'n eich gorfodi chi i roi eich enw neu eich cyfeiriad i'r heddlu, ewch i'r wefan isod am fwy o fanylion. Mae rhaid i'r heddlu esbonio iddych chi pam maen nhw yn eich stopio, ac o dan pa bŵer.

Os ydych chi'n gweld rhywun yn cael eu harestio, os oes angen cymorth arnych chi, neu os oes gyda chi unrhyw gwestiynau am brotestio, ebostiwch neu ffoniwch:

**[courtsupport@protonmail.com](mailto:courtsupport@protonmail.com)**  
**07946 541 511**

Gwirfyddolwyr yw Arsylwyr Cyfreithiol sy'n casglu tystiolaeth ar gyfer protestwyr ac yn atal bygythiadau a chamfieifio o'r heddlu. Cewch ddarllen mwy am eich hawliau ac am ddeddfau protest:

**[www.greenandblackcross.org](http://www.greenandblackcross.org)**

Ar ôl cael eich arestio, neu os oes dyddiad llys gyda chi ac rydych chi eisiau cyngor, ebostiwch **[courtsupport@protonmail.com](mailto:courtsupport@protonmail.com)**